

Graddau Haf 2020 ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau (SCC)

Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno
Graddau Aesu Canolfannau

Fersiwn 2 – 18 Mai 2020



Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill¹ sy'n defnyddio cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrifau Her Sgiliau² cymeradwy i Gymru yn unig a gynigir gan CBAC ac a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru. Bydd gwybodaeth ychwanegol am gymwysterau eraill yn cael ei rhannu cyn gynted ag y cytunir ar ddulliau.

Darperir y wybodaeth hon yng nghyd-destun y cyngor mwyaf diweddar ar gyfer lleoliadau addysgol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru³. Os bydd y cyngor hwnnw'n newid, dylai Penaethiaid Canolfannau ystyried y wybodaeth hon yng ngoleuni unrhyw ganllawiau sydd wedi'u diweddarau.

Yn dilyn penderfyniad y gweinidogion ar 18 Mawrth 2020 i gau ysgolion⁴ a'r penderfyniad canlyniadol i ganslo cyfres arholiadau haf 2020⁵, rhaid hwyluso dilyniant dysgwyr i'r chweched dosbarth, coleg, addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gofynnir i ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill gyflwyno **graddau asesu canolfannau**, ynghyd â **threfn restr** o ddysgwyr i alluogi dyfarnu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau (SCC). Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth i Benaethiaid Canolfannau ac athrawon ynghylch sut i gynhyrchu'r graddau hyn a'r dystiolaeth y dylid ei hystyried. Cyn belled ag yr oedd yn ymarferol yn yr amgylchiadau presennol, rydym wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ac arweinwyr addysg ar draws y sector wrth i ni ddatblygu'r dull hwn.

Nid yw hwn yn ddata a gesglir fel arfer, ac felly mae CBAC yn addasu systemau TG i gasglu hyn. Bydd CBAC yn darparu cyfarwyddiadau manwl cyn gynted â phosibl ar y broses gyflwyno. Rydym yn cydnabod nad yw hon yn broses y mae canolfannau wedi cynllunio ar ei chyfer, felly pwrpas y wybodaeth a ddarperir yn y ddogfen hon yw galluogi canolfannau i ddechrau'r gwaith sy'n angenrheidiol i gynhyrchu'r data. **Ni fydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r data yn gynharach na 29 Mai 2020**, a chaiff yr union ddyddiad ar gyfer cyflwyno'r data ei hysbysu gan CBAC fel rhan o'r cyfarwyddiadau manwl y bydd yn eu cyhoeddi.

Rhaid i'r graddau asesu canolfannau a gyflwynir i CBAC adlewyrchu dyfarniad teg, rhesymol ac ystyriol o'r **radd fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi'i chyflawni pe**

¹ Canolfan(au) yw'r term a ddefnyddir trwy'r ddogfen i gyfeirio at ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill

² Mae'r wybodaeth hon hefyd yn ymdrin â'r cymwysterau dynodedig canlynol: TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (dyfarniad sengl), TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (dyfarniad dwbl), TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (cwrs llawn), TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (cwrs byr), TAG mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (UG a Safon Uwch), TAG mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu Cymhwysol (UG a Safon Uwch)

³ https://llyw.cymru/coronafeirws-covid-19-canllawiau-lleoliadau-addysgol?_ga=2.170026592.1903011312.1589822792-1021684883.1567419859

⁴ https://llyw.cymru/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru?_ga=2.95986524.1903011312.1589822792-1021684883.1567419859

⁵ https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadaur-haf?_ga=2.95986524.1903011312.1589822792-1021684883.1567419859

bai wedi sefyll ei arholiadau'r haf hwn ac wedi cwblhau unrhyw asesiadau diarholiad.

Er budd tegwch i ddysgwyr, dylai dyfarniadau a wneir gan ganolfannau ledled Cymru fod yn gyson. Fodd bynnag, mae'n afresymol disgwyl y bydd athrawon mewn gwahanol ganolfannau ledled y wlad yn llunio dyfarniadau sy'n union gyson â'i gilydd. Fel bod y graddau terfynol a ddyfernir mor deg â phosibl, bydd CBAC yn safoni dyfarniadau'r ganolfan ar ôl iddynt gael eu cyflwyno, gan ddefnyddio dull a ddatblygwyd ar y cyd â Cymwysterau Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd canolfannau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad ar sail y graddau hyn a byddant yn disgwyl i Estyn, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol fabwysiadu dull tebyg. Ni fydd mesurau perfformiad ysgolion Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16 yn cael eu cyfrif ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20.

Mae angen yr un wybodaeth gan ganolfannau yn Lloegr ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch a reoleiddir gan Ofqual.

Pa wybodaeth fydd ei hangen?

Ar gyfer pob cymhwyster TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau, bydd gofyn i bob canolfan gyflwyno:

- **Gradd asesu canolfan** ar gyfer pob dysgwr - barn broffesiynol yr athrawon pwnc, gan gynnwys y Pennaeth Adran⁶, ynghylch y radd y byddai pob dysgwr yn fwyaf tebygol o'i chyflawni pe byddent wedi sefyll eu harholiadau'r haf hwn;
- **Trefn restrol** o ddysgwyr ym mhob gradd - er enghraifft, ar gyfer yr holl ddysgwyr hynny sydd â gradd B mewn Mathemateg TGAU, trefn restrol lle mai 1 yw'r dysgwr ar frig y radd honno (ac felly agosaf at y radd uwchben), ac yn y blaen.

Dylai canolfannau sicrhau bod y data a gyflwynir yn gywir.

Graddau asesu canolfannau

Dylai cynhyrchu graddau asesu canolfannau ar gyfer pob dysgwr fod yn farn broffesiynol gyfannol, sy'n cydbwysu'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth. Bydd gan athrawon, Pennaethiaid Adran ac uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o alluoedd eu dysgwyr a sut y maent yn cymharu â dysgwyr eraill sy'n cymryd y cymhwyster eleni, ac mewn blynyddoedd blaenorol. Rydym am i ganolfannau ystyried perfformiad pob

⁶ Defnyddir y term Pennaeth Adran drwyddi draw ond gall teitlau'r swyddi arwain cyfatebol amrywio mewn gwahanol ganolfannau.

dysgwyr dros gyfnod yr astudiaeth a llunio barn realistig o'r radd y byddai pob dysgwr wedi bod yn fwyaf tebygol o'i chael pe bai wedi sefyll ei arholiad(au) mewn pwnc, ynghyd ag unrhyw asesiadau diarholiad yr haf yma.

Wrth ddod i'r dyfarniad hwn, dylai athrawon dybio nad yw'n haws neu'n anoddach i ddysgwyr ennill gradd benodol eleni, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Dylai athrawon ddefnyddio cofnodion presennol a'r dystiolaeth sydd ar gael (cyn belled ag y bo modd, yng nghyd-destun cyngor iechyd y cyhoedd cyfredol). Mae'n bwysig bod y dyfarniadau'n wrthrychol, a dylent ystyried tystiolaeth am berfformiad dysgwyr yn unig. Mae hyn yn debygol o gynnwys y canlynol, lle mae ar gael:

- cofnodion o berfformiad pob dysgwr yn ystod yr astudiaeth, gan gynnwys er enghraifft asesiadau parhaus at ddibenion ffurfiannol, gwaith dosbarth a/neu gyfranogiad mewn perfformiadau mewn pynciau fel cerddoriaeth, drama ac addysg gorfforol;
- perfformiad ar unrhyw asesiadau dosbarth neu waith cartref ffurfiol a ffug arholiadau a gymerwyd yn ystod yr astudiaeth;
- perfformiad ar unrhyw asesiad diarholiad (NEA), hyd yn oed os nad yw hyn wedi'i gwblhau. **Ni ddylai canolfannau ofyn i ddysgwyr gwblhau eu gwaith NEA nawr.** Ond bydd angen i athrawon gofio bod llawer o ddysgwyr yn perfformio'n well ar eu NEA nag yn eu harholiadau, felly ni ddylent seilio'r dyfarniad ar yr NEA yn unig. Dylai athrawon ei gydbwyso â dyfarniad am y perfformiad tebygol yn y papur(au) ysgrifenedig. **Fel y gwyddoch, mae CBAC wedi ysgrifennu at bob canolfan i gadarnhau nad oes angen cyflwyno NEA ac na fydd yn cael ei gymedroli [diweddariad NEA CBAC].**
- haen mynediad mewn cymwysterau haenog - rhaid i raddau asesu canolfannau adlewyrchu'r haen mynediad;
- ar gyfer dysgwyr sy'n ail-sefyll, gwybodaeth am raddau blaenorol a gyflawnwyd ac asesiad realistig o'r gwelliant a wnaed ers i'r cymhwyster gael ei sefyll ddiwethaf;
- ar gyfer dysgwyr TGAU, canlyniadau unrhyw unedau TGAU a gymerwyd eisoes;
- ar gyfer dysgwyr Safon Uwch a gymerodd UG yn 2019, eu canlyniadau UG yn y pwnc hwnnw;
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Gan y gofynnir i ganolfannau gyflwyno data a dynnwyd o weithgareddau addysgu, dysgu ac asesu ffurfiannol arferol dros y flwyddyn neu flynyddoedd academaidd, bydd y data wedi bod yn destun polisiâu a gweithdrefnau arferol y ganolfan, a fydd yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus⁷ sydd wedi'i

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/section/149>

gwreiddio ynddynt. Fodd bynnag, dylai Canolfannau hefyd ystyried addasiadau rhesymol eraill y dylid eu cynnwys yn eu dyfarniad ar Raddau Asesu Canolfannau. Mae dyletswyddau sy'n benodol i Gymru hefyd sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i ddangos y rhoddir sylw dyledus i'r ddyletswydd gyffredinol.⁸

Pan fydd gan ddysgwyr anabl drefniant mynediad cytunedig (er enghraifft darllynydd neu ysgrifennydd), neu lle mae gan ddysgwyr eraill drefniant mynediad y cytunwyd arno, dylai'r dyfarniad ystyried cyflawniad tebygol gyda'r trefniant addasu/mynediad ar waith. Ni fydd ceisiadau am ystyriaeth arbennig, os na fydd myfyriwr yn gallu gwneud asesiad neu'n dioddef digwyddiad trawmatig a allai effeithio ar ei berfformiad, yn berthnasol yr haf hwn. Yn hytrach, dylai dyfarniadau adlewyrchu sut y byddai'r dysgwyr wedi perfformio o dan amgylchiadau cyffredin. Lle gallai salwch fod wedi effeithio ar berfformiad mewn ffug arholiadau, dylai athrawon gofio hynny wrth lunio'u dyfarniadau.

O ystyried amseriad y cyhoeddiad, rydym yn cydnabod y bydd gan ganolfannau arholi dystiolaeth anghyflawn, ac y bydd ystod a maint y dystiolaeth yn amrywio rhwng gwahanol gymwysterau. Dylid dyfarnu ar sail y dystiolaeth sydd ar gael.

Nid oes unrhyw ofyniad i ganolfannau osod ffug arholiadau neu dasgau gwaith cartref. Fe'ch cynghorir na ddylid ystyried gwaith a gwblhawyd ar ôl 20 Mawrth, pan gaeodd ysgolion, wrth lunio dyfarniadau ar raddau asesu canolfannau. Mae hyn oherwydd lle mae'r gwaith diweddarach hwnnw'n awgrymu cyflawniad sylweddol well neu waeth, gall hyn adlewyrchu'r amgylchiadau a'r cyd-destun y mae'r gwaith yn cael ei wneud ynddo, yn hytrach na darparu tystiolaeth ar gyfer gradd uwch neu is nag y byddai'r gwaith a gwblhawyd cyn 20 Mawrth yn awgrymu.

Ni fydd yn ofynnol i ganolfannau anfon unrhyw waith dysgwr na thystiolaeth arall at CBAC, ond dylai canolfannau ei gadw rhag ofn y bydd ymholiadau.

Mae'n bwysig bod dyfarniadau'n wrthrychol, ac felly dim ond tystiolaeth am berfformiad dysgwyr y dylech ei hystyried (fel yr amlinellwyd uchod).

Dylai Penaethiaid Canolfannau hefyd gadw'r canlynol mewn cof, wrth gynghori eu staff ac wrth adolygu'r dyfarniadau hyn.

- Canlyniadau blaenorol yn eich ysgol neu goleg yn y pwnc hwn
- Perfformiad dysgwyr eleni o'i gymharu â pherfformiadau blynyddoedd blaenorol

Sylwch **nad** yw'r **graddau asesu canolfannau** hyn yr un fath â:

⁸ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/1064/contents/made>

- Graddau cysylltiedig ag oedran (a ddiffinnir fel arfer fel y radd y byddai dysgwr yn ei derbyn pe bai'n sefyll y cymhwysger TGAU, UG neu Safon Uwch nawr)
- Graddau gweithio (y radd y mae dysgwr yn gweithio arni ar hyn o bryd)
- Graddau targed neu ddyheadol (yn aml wedi'u gosod ychydig yn uwch na'r hyn sy'n debygol, i ysgogi dysgwyr).
- Graddau darogan a roddwyd i UCAS i gefnogi ceisiadau prifysgol.

Trefn restrol o fewn pob gradd, ar gyfer pob cymhwyster

Mae'r model ystadegol yn gofyn am raddfa fwy gronynnog na graddau yn unig. Am y rheswm hwn, mae angen i ganolfannau ddarparu trefn restrol o ddysgwyr o fewn pob gradd. Er enghraifft, os oes gennych 15 o ddysgwyr ar gyfer Mathemateg TGAU yr ydych wedi rhoi gradd B asesu canolfan iddynt, dylech eu graddio o 1 i 15, lle mai 1 yw'r dysgwr sy'n perfformio orau, 2 yw'r nesaf ac ati.

Sut i sicrhau bod trefn restrol y dysgwyr mor gywir â phosibl

Ar ôl i raddau asesu canolfannau gael eu cyflwyno, bydd CBAC yn cynnal proses, sy'n cael ei datblygu gyda Cymwysterau Cymru, i safoni graddau rhwng canolfannau. Er mwyn i hyn fod yn deg, mae'n bwysig bod trefn restrol y dysgwyr mor gywir â phosibl.

Lle mae mwy nag un athro pwnc, bydd angen iddynt gytuno ar drefn restrol ar gyfer pob dysgwr o fewn graddau, o fewn y ganolfan, sy'n cymryd y cymhwyster hwnnw.

Dylid gwneud pob ymdrech bosibl i greu un drefn restrol ar gyfer pob gradd. Fodd bynnag, os yw dau neu fwy o ddysgwyr bron yn anwahanadwy o ran eu perfformiad mewn pwnc (ac felly bernir eu bod yn cael yr un radd) yna gall fod yn anodd iawn eu rhoi mewn trefn restrol. I gydnabod hyn, gellir caniatáu rhywfaint o rannu rhengoedd (h.y. dau ddysgwr neu fwy â'r un safle yn y drefn restrol), ac fe ddarperir gwybodaeth bellach gan CBAC.

Rydym yn cydnabod y bydd hyn yn heriol lle mae gan ganolfan nifer fawr o gofrestrïadau ar gyfer pwnc, gyda llawer o wahanol athrawon.

Cofnodi penderfyniadau

Cynghorir canolfannau'n gryf i gadw cofnod ysgrifenedig, manwl o'r broses a ddefnyddir i gynhyrchu graddau asesu canolfannau a threfn restrol ar gyfer pob cymhwyster; a hefyd sut y mae'r broses honno wedi'i chymhwyso i'r penderfyniadau a wnaethpwyd mewn perthynas â graddau pob dysgwr. Fel y nodir uchod, mae nifer o ffactorau y gellid eu hystyried wrth lunio barn, a bydd y dull gweithredu priodol yn amrywio o ganolfan i ganolfan. Yn ogystal, gall fod ystyriaethau penodol i bob

dysgwr y mae angen eu cofnodi, er enghraifft, unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â dysgwyr anabl a thebyg. Dylai canolfannau gofnodi'n benodol sut y cydymffurfiwyd â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth wneud penderfyniadau.

Gellid galw ar ganolfannau i gyfiawnhau eu penderfyniadau, ac felly mae tystiolaeth briodol o wneud penderfyniadau yn hanfodol.

Safoni ystadegol

Bydd CBAC yn defnyddio model ystadegol i safoni graddau ar draws canolfannau ym mhob cymhwyster. Rydym yn gweithio gydag arbenigwyr technegol o fewn CBAC ac mewn sefydliadau eraill i ddatblygu'r model hwn, a fydd yn cyfuno ystod o dystiolaeth a allai gynnwys: dosraniadau graddau disgwylidig ar lefel genedlaethol, canlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol ar lefel canolfan unigol, a phroffil cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr ar lefel canolfan unigol, lle mae ar gael.

Os yw'n ymddangos bod eich dyfarniadau yn fwy llym na chanolfannau eraill, yna gellir addasu graddau dysgwyr i fyny. Ar y llaw arall, os yw'n ymddangos bod eich dyfarniadau'n fwy hael na chanolfannau eraill, yna gellir addasu graddau dysgwyr i lawr. Gwneir hyn i alinio'r dyfarniadau ar draws ysgolion a cholegau, fel, cyn belled ag y bo modd, nad yw dysgwyr o dan fantais neu anfantais yr haf hwn.

Mae hyn yn golygu y gallai'r graddau asesu canolfannau rydych chi'n eu cyflwyno a'r radd gyfrifedig derfynol y mae dysgwyr yn ei derbyn fod yn wahanol. Mae hefyd yn debygol y bydd y canlyniadau cenedlaethol cyffredinol ar gyfer haf 2020 yn edrych ychydig yn wahanol i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol.

Pa ddysgwyr y dylid eu cynnwys?

Bydd hyn yn ofynnol ar gyfer pob dysgwr a gofrestrwyd ar gyfer y cymhwyster. Lle mae canolfannau wedi derbyn ceisiadau gan 'ymgeiswyr preifat' (dysgwyr a allai gael eu dysgu gartref, yn dilyn rhaglenni dysgu o bell neu'n astudio'n annibynnol), dylid cynnwys y dysgwyr hynny lle mae Pennaeth y Ganolfan yn hyderus eu bod nhw a'u staff wedi gweld tystiolaeth ddigonol o gyflawniad y dysgwyr i lunio barn wrthrychol. Rydym yn archwilio ar frys a oes opsiynau amgen ar gyfer y myfyrwyr hynny nad oes ganddynt berthynas â chanolfan ar hyn o bryd ac sydd angen canlyniadau yr haf hwn at ddibenion dilyniant. Yn anffodus, mae'n annhebygol y bydd hyn yn bosibl ar gyfer pob ymgeisydd preifat, ac efallai y bydd angen i rai ohonynt sefyll arholiadau yng nghyfes arholiadau Tachwedd 2020 ar gyfer TGAU mewn Iaith Saesneg, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith, neu yng nghyfes arholiadau haf 2021 ar gyfer pob cymhwyster. Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn fater o bryder gwirioneddol i ymgeiswyr preifat a byddwn yn darparu diweddariad cyn gynted â phosibl.

Dylai canolfannau gyflwyno graddau asesu canolfannau ar gyfer pob dysgwr y maent yn hyderus y gallant lunio dyfarniad ar ei gyfer. Penderfyniad Pennaeth y Ganolfan fydd hwn. Dylai Pennaeth y Ganolfan gyfleu ei benderfyniad i unrhyw ymgeiswyr preifat a chymryd cyngor gan CBAC lle nad yw achosion yn syml.

Bydd yn bwysig i ganolfannau sicrhau bod eu cofnodion yn gyflawn ac yn gywir gan mai dim ond ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi cael eu cofrestru ar gyfer y cymhwyster y bydd graddau'n cael eu cyhoeddi. **Bydd CBAC yn rhannu dyddiadau ar gyfer cwblhau cofnodion gyda'r manylion cyflwyno data.**

Sut (a phryd) i gyflwyno'r wybodaeth hon i CBAC

Bydd gwybodaeth bellach yn dilyn unwaith y bydd CBAC wedi cwblhau'r gwaith o addasu eu systemau TG. Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno i CBAC hefyd yn cael ei rannu cyn gynted â phosibl. **Ni fydd yn gynharach na 29 Mai 2020** a bydd gan ganolfannau ffenestr o o leiaf pythefnos i gyflwyno'r data. Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn gan CBAC ar ôl y Pasg. **Peidiwch** â cheisio cyflwyno data nes bod CBAC wedi cyhoeddi cyfarwyddiadau.

Rhannu data â dysgwyr, rhieni a gofalwyr

Bydd dysgwyr, rhieni a gofalwyr eisiau gwybod bod y broses o gynhyrchu graddau asesu canolfannau yn drylwyr, yn wrthrychol ac yn deg. Rydym wedi cyhoeddi [neges](#) i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr y gallai Penaethiaid Canolfan fod eisiau ei chylchredeg.

Gall testunau data (dysgwyr) ofyn am eu data personol o dan erthygl 15 o'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016 (GDPR). Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r eithriad o dan baragraff 25 (2) a (3) o atodlen 2 i Ddeddf Diogelu Data 2018 yn berthnasol i wybodaeth sy'n cael ei phrosesu at ddibenion pennu'r canlyniadau sydd i'w dyfarnu eleni. Mae hyn yn caniatáu i Reolwyr Data (canolfannau yn yr achos hwn) ohirio datgelu gwybodaeth o'r fath nes bod y canlyniadau wedi'u cyhoeddi.

Ni ddylai canolfannau, o dan unrhyw amgylchiadau, rannu graddau asesu'r ganolfan na threfn restrol dysgwyr â dysgwyr, na'u rhieni na'u gofalwyr, nac unrhyw unigolion eraill y tu allan i'r ganolfan. Pwrpas hyn yw amddiffyn hygrededd dyfarniadau athrawon, ac osgoi rhoi athrawon, Penaethiaid Adran neu Benaethiaid Canolfannau dan bwysau gan ddysgwyr a rhieni, i gyflwyno gradd nad yw'n cael ei chefnogi gan y dystiolaeth. Gan y gallai'r graddau terfynol a roddir i rai neu bob dysgwr fod yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd, mae hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau dysgwyr.

Trefniadau ar gyfer apeliadau

O dan yr amgylchiadau, ni fydd y trefniadau arferol ar gyfer adolygiadau o farcio ac apeliadau yn berthnasol. Rydym yn ystyried pa drefniadau y gellir eu rhoi ar waith i ganiatáu apêl effeithiol, tra'n cadw niferoedd a chymhlethdod apeliadau yn hylaw er mwyn osgoi oedi ac ansicrwydd i ddysgwyr.

Bydd mwy o wybodaeth ar gael i athrawon, dysgwyr, rhieni a gofalwyr ar adeg cyhoeddi'r canlyniadau terfynol, er mwyn hwyluso unrhyw apeliadau yn erbyn cymhwysiad y broses.

Cymeradwyo mewnol yn yr ysgol/coleg/canolfan arholi

Cymeradwyo gan yr adran

Dylai o leiaf dau athro yn y pwnc hwnnw lofnodi pob set o raddau asesu canolfannau ar gyfer cymhwyster, lle bo hynny'n bosibl, a dylai un ohonynt fod yn Bennaeth Adran, neu gan Bennaeth y Ganolfan os mai dim ond un athro sydd ar gael. Lle gallai fod gan aelod o staff fuddiant personol mewn ymgeisydd (er enghraifft fel perthynas), dylai Penaethiaid Canolfannau sicrhau bod rheolaethau ychwanegol ar waith, yn ôl yr angen.

Cymeradwyo gan Bennaeth y Ganolfan

Bydd yn ofynnol i Bennaeth y Ganolfan gadarnhau bod graddau asesu'r ganolfan a threfn restrol dysgwyr yn gynrychiolaeth wirioneddol o berfformiad dilys dysgwyr. Os nad yw Pennaeth y Ganolfan ar gael i wneud hyn, gellir ei ddirprwyo i Ddirprwy neu i aelod arall o'r Uwch Dîm Arwain. Wrth adolygu'r graddau asesu canolfannau hyn, dylai Pennaeth y Ganolfan ystyried:

- sut mae dosbarthiad graddau asesu canolfannau yn cymharu â'r graddau a gyflawnwyd gan y ganolfan mewn blynyddoedd blaenorol
- sut mae dosbarthiad graddau asesu canolfannau yn cymharu â gallu'r garfan gyfredol o'i chymharu â'r 2 neu 3 carfan flaenorol yn y ganolfan.

Bydd yn ofynnol i Bennaeth y Ganolfan gyflwyno'r datganiad a ganlyn pan gyflwynir y data:

Rwy'n cadarnhau bod y graddau asesu canolfannau hyn, a threfn restrol dysgwyr yn gywir ac, wedi'u hadolygu gan ail aelod o staff (lle bo hynny'n bosibl), a'u bod yn gywir ac yn cynrychioli'r dyfarniadau proffesiynol a wnaed gan fy staff, a bod y cofnodion yn briodol ar eu cyfer pob ymgeisydd. Ar ôl adolygu'r prosesau a'r data perthnasol, rwy'n hyderus eu bod yn cynrychioli'n onest ac yn deg y graddau y byddai'r dysgwyr hyn wedi bod yn fwyaf tebygol o'u cyflawni pe byddent wedi sefyll eu harholiadau fel y cynlluniwyd, ac na

chawsant eu datgelu naill ai i'r dysgwr, y rhiant neu i'r gofalwr. Rwy'n deall y bydd CBAC yn cynnal ymarfer safoni ystadegol, gan ddefnyddio model a ddatblygwyd gyda Cymwysterau Cymru ac, os yw proffil y graddau a gyflwynir yn sylweddol wahanol i'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn seiliedig ar ganlyniadau hanesyddol fy nghanolfan a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr eleni, bydd y graddau ar gyfer fy nghanolfan yn cael eu haddasu i sicrhau eu bod yn unol â safonau cenedlaethol.

Ni fydd canlyniadau canolfannau (graddau terfynol y dysgwyr) yn cael eu cyfrifo heb i'r data a'r datganiad gael eu cyflwyno.

Gall CBAC ymchwilio i unrhyw ymdrechion i danseilio'r system hon a allai fod yn cael ei ystyried yn gamymddwyn.

Y camau nesaf

Dylai Penaethiaid Canolfannau nawr wneud trefniadau ar gyfer y canlynol:

1. Gwirio bod y cofrestradau ar gyfer yr arholiadau yn gyflawn ac yn gywir.
2. Cysylltu ag unrhyw ymgeiswyr preifat i gadarnhau a fydd y ganolfan yn gallu cyflwyno gradd asesu canolfan a'u cynnwys yn y drefn restrol.
3. Dechrau ar y gwaith o gynhyrchu gradd asesu canolfan a threfn restrol cyffredinol ym mhob cymhwyster.
4. Sicrhau bod yr holl staff yn deall na ddylid rhannu'r radd a'r drefn restrol â dysgwyr, rhieni a gofalwyr.

Bydd CBAC yn darparu gwybodaeth fanwl ar ôl y Pasg ynghylch sut i gyflwyno'r data.

Bydd Cymwysterau Cymru yn ystyried nifer o newidiadau i reoliadau sy'n caniatáu i ganlyniadau eleni gael eu cyflawni o dan yr amgylchiadau newidiol, gan gynnwys:

- Yr egwyddorion sy'n sail i'r model technegol ar gyfer y broses safoni ystadegol
- Trefniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat
- Trefniadau ar gyfer apeliadau

Cynhyrchir asesiad effaith integredig, gan ystyried effaith ein penderfyniadau a'n polisiau ar grwpiau gwarchoddedig.

Cyngor ac arweiniad pellach

Os oes angen cyngor pellach arnoch, edrychwch ar ein [cwestiynau cyffredin](#).

Peidiwch â chysylltu â CBAC ar yr adeg hon i ofyn am fanylion cyflwyno data. Darperir manylion cyn gynted â phosibl.